# Gweddi dros Affganistan

Tyrd, Iesu …
Tyrd, ein Gwaredwr,
tyrd at holl bobl Affganistan,
yn ei gaeaf trymaf.
Tyrd, gyda bwyd a dŵr,
i fwydo'r llwglyd ac adfywio'r rhai sychedig.

Tyrd, ti fu'n blentyn dy hun,
tyrd at y plant a'r babanod,
pan fo cymaint yn griddfan mewn chwant bwyd
a rhieni roddai'r cyfan iddynt i'w bwydo.

Tyrd, dywysog tangnefedd,
tyrd a'th heddwch i'r tir hwn
ar ôl deugain mlynedd o ryfel hir.
Tyrd at y rhai sy wedi eu dadleoli,
at bobl ofnus ac yn fregus i drais.

Tyrd, oleuni ein nos,
tyrd at deuluoedd sy'n oer a rhynllyd,
pan fo haint yn ymledu rhyngddynt,
yr economi wedi torri,
a'r greadigaeth yn gruddfan mewn poen.

Tyrd ar gyfer yr holl bobl, o bob ffydd,
at holl blant pob teulu,
i bob man ble mae mamau a phlant yn wylo,
tyrd, Dduw a fu'n gnawd bregus,
i gyffwrdd dy fyd gyda gobaith go iawn unwaith eto.

Tro ein tristwch dros blant sy'n dioddef,
a'n penderfyniad na fydd casineb yn ennill,
i rywbeth y gallwn ei wneud.
Cymer yr arian a roddwn, a'r gweddïau a offrymwn,
ac ysbrydola ynom, ac yn dy holl bobl,
beth bynnag sydd ei angen i greu byd newydd.

O ddyfnder y gaeaf caled hwn,
bydded i obaith egino. Amen.

*Ysgrifennwyd gan Revd Dr Susan Durber*
*Llywydd, Comisiwn Ffydd a Threfn, WCC*

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928. The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid June 2020 J121236

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928. The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid June 2020 J121236